OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 717 (Cy.63)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud	- -	*6 Mawrth 2007*
Yn dod I rym	- -	*15 Mawrth 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), wedi ei ddynodi(**1**) i arfer pwerau o dan adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**2**) o ran mesurau sy'n ymwneud ag asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol a chydymffurfedd â gwerthoedd terfyn ansawdd aer, gwerthoedd targed ac amcanion, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

RHAN 1

Cyffredinol

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Mawrth 2007.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diffiniadau

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aer amgylchynol" ("*ambient air*") yw aer y tu allan yn y troposffer, heb gynnwys gweithleoedd;

ystyr "amcan hirdymor" ("*long-term objective*") yw'r mwyafswm crynodiad osôn sydd wedi ei nodi yn Rhan 4 o Atodlen 1;

ystyr "asesu" ("*assessment*") yw unrhyw ddull a ddefnyddir i fesur, cyfrifo, rhagfynegi neu amcangyfrif crynodiad llygrydd;

mae i "crynhoad" ("*agglomeration*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 5(2);

ystyr "crynodiad" ("*concentration*") yw—

(**1**) O.S. 2000/2812.
(**2**) 1972 c. 68.

(a) ar gyfer llygryddion ac eithrio llygryddion Grŵp B, crynodiad y llygrydd perthnasol mewn aer amgylchynol; neu

(b) ar gyfer llygryddion Grwp B, cyfanswm cynnwys y llygrydd perthnasol yn y ffracsiwn PM_{10} mewn aer amgylchynol,

ac yn y ddau achos, mae cyfeiriad at grynodiad yn gyfeiriad at grynodiad a aseswyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â'r Rheoliadau hyn;

ystyr "cynllun gweithredu" ("*action plan*") yw cynllun gweithredu sy'n ofynnol gan reoliad 11;

ystyr "cynllun gwella" ("*improvement plan*") yw cynllun gwella sy'n ofynnol gan reoliad 8;

ystyr "dyddiad cyrhaeddiad" ("*attainment date*") yw'r dyddiad—

(a) y mae'n rhaid cyrraedd y gwerth terfyn; neu

(b) y dylid cyrraedd y gwerth targed, i'r graddau y bo hynny'n bosibl;

ystyr "ffin goddefaint" ("*margin of tolerance*") yw'r maint a ddynodir yn Rhan 2 o Atodlen 1 y gellir mynd yn uwch na'r gwerth terfyn;

rhaid dehongli "gorsaf cefndir gwledig" ("*rural background station*") yn unol â Rhan 3 o Atodlen 5;

ystyr "gwerth targed" ("*target value*") yw'r crynodiad uchaf o lygrydd Grŵp B fel y nodwyd yn Rhan 3 o Atodlen 1 neu osôn fel y nodwyd yn Rhan 4 o'r Atodlen honno;

ystyr "gwerth terfyn" ("*limit value*") yw'r mwyafswm crynodiad a ganiateir o lygrydd Grŵp A sydd wedi ei nodi yn Rhan 1 o Atodlen 1;

ystyr "hydrocarbonau aromatig polysyclig" ("*polycyclic aromatic hydrocarbons*") yw—

(a) y cyfansoddion sydd wedi eu rhestru yn rheoliad 19(2); a

(b) unrhyw hydrocarbonau aromatig polysyclig eraill y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn dewis eu monitro o dan reoliad 19(1)(b);

ystyr "llygrydd" ("*pollutant*") yw —

(a) unrhyw lygrydd Grŵp A;

(b) unrhyw lygrydd Grŵp B;

(c) osôn; neu

(ch) unrhyw lygrydd y mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn berthnasol iddo;

ystyr "llygryddion Grŵp A" ("*Group A pollutants*") yw bensen, carbon monocsid, plwm, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, PM_{10} a sylffwr deuocsid;

ystyr "llygryddion Grŵp B" ("*Group B pollutants*") yw arsenig, benso(a)pyren, cadmiwm a nicel a'u cyfansoddion;

ystyr "ocsidau nitrogen"("*oxides of nitrogen*") yw'r swm o ocsid nitrig a nitrogen deuocsid a ychwanegir fel rhannau y biliwn ac a fynegir fel nitrogen deuocsid mewn microgramau y metr ciwbig;

ystyr "parth" (*zone*") yw un o'r rhannau o'r diriogaeth y rhannwyd Cymru iddynt gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan reoliad 5(1) at ddibenion Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn; ac mae cyfeiriadau at barth, oni bai bod y cyd-destun yn dangos fel arall, yn cynnwys crynhoad.

ystyr "$PM_{2·5}$" yw mater gronynnol sy'n llwyddo i fynd drwy fewnfa dethol maint gyda therfyn effeithlonrwydd o 50% pan fydd y diamedr erodynamig yn 2.5µm;

ystyr "PM_{10}" yw mater gronynnol sy'n llwyddo i fynd drwy fewnfa dethol maint gyda therfyn effeithlonrwydd o 50% pan fydd y diamedr erodynamig yn 10µm, ac mewn perthynas â hyn, o ran asesu llygryddion Grŵp B, mae'r fewnfa wedi ei diffinio yn EN 12341;

ystyr "rhagsylweddau osôn" ("*ozone precursor substances*") yw sylweddau sy'n cyfrannu at ffurfio osôn ar lefel y ddaear, fel y cyfeirir atynt gan reoliad 18(1);

ystyr "safonau ansawdd aer" ("*air quality standards*") yw gwerthoedd terfyn, gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor;

ystyr "trothwy gwybodaeth" ("*information threshold*") yw'r trothwy gwybodaeth sydd wedi ei nodi yn Rhan 2 o Atodlen 3;

ystyr "trothwy rhybuddio" ("*alert threshold*") yw trothwy rhybuddio a nodwyd yn Atodlen 3.

(2) Mae i'r geiriau a dywediadau eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn yr ystyr a roddir iddynt yn y Cyfarwyddebau canlynol —

(a) Cyfarwyddeb y Cyngor 96/62/EC ar asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol(**3**);

(b) Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/30/EC yn ymwneud â gwerthoedd terfyn ar gyfer sylffwr deuocsid, nitrogen deuocsid ac ocsidau nitrogen, mater gronynnol a phlwm mewn aer amgylchynol(**4**);

(c) Cyfarwyddeb 2000/69/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor yn ymwneud â gwerthoedd terfyn ar gyfer bensen a charbon monocsid mewn aer amgylchynol(**5**);

(ch) Cyfarwyddeb 2002/3/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor yn ymwneud ag osôn mewn aer amgylchynol(**6**); a

(d) Cyfarwyddeb 2004/107/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor yn ymwneud ag arsenig, cadmiwm, mercwri, nicel a hydrocarbonau aromatig polysyclig mewn aer amgylchynol(**7**).

Dynodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ei ddynodi fel yr awdurdod cymwys at ddibenion erthygl 3 (gweithredu a chyfrifoldebau) o Gyfarwyddeb y Cyngor 96/62/EC.

RHAN 2

Llygryddion Grŵp A a Grŵp B ac osôn

PENNOD 1

Safonau ansawdd aer

Rhagarweiniad a chymhwysiad

4.—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys mewn perthynas â'r llygryddion canlynol—

(a) Llygryddion Grŵp A;

(b) Llygryddion Grŵp B; ac

(c) osôn.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod yr holl fesurau a gymerir o dan Pennod 2 neu 3 o'r Rhan hon—

(a) yn rhoi ystyriaeth i ddull integredig o weithredu mewn perthynas â diogelu aer, dŵr a phridd; a

(**3**) OJ Rhif L 296, 21.11.96, t. 55.
(**4**) OJ Rhif L 163, 29.06.99, t. 41.
(**5**) OJ Rhif L 313, 13.12.00, t. 12.
(**6**) OJ Rhif L 67, 09.03.02, t.14.
(**7**) OJ Rhif L 23, 26.01.05, t. 3.

(b) ddim yn cael unrhyw effaith negyddol ar—

(i) unrhyw Aelod-wladwriaeth arall, neu

(ii) unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig.

Parthau a chrynoadau

5.—(1) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, at ddibenion y Rhan hon, rannu tiriogaeth Cymru yn barthau.

(2) Bydd parth yn cael ei ddosbarthu fel crynhoad at ddibenion y Rhan hon lle—

(a) mae'n cynnwys poblogaeth o dros 250,000 o breswylwyr; neu

(b) mewn unrhyw achos arall, mae ganddo ddwysedd poblogaeth y km^2 y mae'r Cynulliad Cenedlaethol o'r farn y gellir cyfiawnhau dosbarthiad o'r fath.

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol sefydlu gwahanol barthau ar gyfer gwahanol lygryddion lle y mae'n barnu bod hynny'n briodol.

Safonau ansawdd aer

6.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (4), mae'n ofynnol i'r safonau ansawdd aer canlynol a nodwyd yn Atodlen 1 gael eu cyrraedd ym mhob parth—

(a) ar gyfer llygryddion Grŵp A, y gwerthoedd terfyn sydd wedi eu nodi yn Rhan 1 o'r Atodlen honno;

(b) ar gyfer llygryddion Grŵp B, y gwerthoedd targed sydd wedi eu nodi yn Rhan 3 o'r Atodlen honno; ac

(c) ar gyfer osôn, y gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor sydd wedi eu nodi yn Rhan 4 o'r Atodlen honno.

(2) Y dyddiad cyrhaeddiad ar gyfer gwerth terfyn neu darged yw—

(a) dyddiad cyrhaeddiad a nodwyd ar gyfer y llygrydd perthnasol yn Atodlen 1; neu

(b) lle nad oes dyddiad cyrhaeddiad wedi ei nodi, y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym.

(3) Mae'r amcanion hirdymor i'w cyflawni yn yr hirdymor, i'r graddau y gellir cyflawni'r amcanion hyn trwy'r mesurau sy'n ofynnol gan reoliad 7(3)(b).

(4) Yn achos bensen a nitrogen deuocsid, mae'r ffiniau goddefaint a nodwyd yn Rhan 2 o Atodlen 1 yn gymwys yn y cyfnodau a bennir.

PENNOD 2

Cyrraedd safonau ansawdd aer

Mesurau cyrraedd cyffredinol

7.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd y mesurau angenrheidiol i sicrhau bod crynoadau pob llygrydd, ym mhob parth, yn cyrraedd y safonau ansawdd aer sy'n ofynnol gan reoliad 6.

(2) Y mesurau angenrheidiol mewn perthynas â llygryddion Grŵp B yw—

(a) Mesurau nad ydynt yn golygu costau anghyfartal; a

(b) i'r graddau bod crynoadau o'r llygryddion perthnasol yn codi o ganlyniad i ollyngiadau o weithfeydd y mae Cyfarwyddeb y Cyngor 96/61/EC ynglyn ag atal a rheoli llygredd

integredig(**8**) yn gymwys, defnyddio'r dulliau gorau sydd ar gael i atal llygredd o'r gweithfeydd hynny yn unol ag erthygl 3(a) o'r Gyfarwyddeb honno(**9**).

(3) Y mesurau angenrheidiol mewn perthynas ag osôn yw'r mesurau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn barnu eu bod —

(a) yn gymesur, yn achos y gwerthoedd targed yn ogystal â'r amcanion hirdymor; a

(b) yn gost effeithiol, yn achos amcanion hirdymor.

Cynlluniau gwella

8.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â phob parth lle—

(a) cyn y dyddiad cyrhaeddiad, mae crynoadau o bensen neu nitrogen deuocsid yn uwch na'r gwerth terfyn a'r ffin goddefaint sy'n gymwys; neu

(b) mae crynoadau osôn yn uwch na'r gwerth targed.

(2) Pan fo paragraff (1)(a) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi a gweithredu cynllun gwella mewn perthynas â'r llygrydd dan sylw neu, os cyflawnir yr amod a bennir o ran y ddau llygrydd, mewn perthynas â'r ddau lygrydd hynny.

(3) Pan fo paragraff (1)(b) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi a gweithredu cynllun gwella mewn perthynas ag osôn oni bai ei fod yn barnu na ellid cyrraedd y gwerth targed trwy fesurau cymesur.

(4) Rhaid i gynllun gwella gynnwys yr wybodaeth a nodwyd yn Atodlen 2.

(5) Pan y bo'n ofynnol paratoi a gweithredu cynllun gwella o dan baragraffau (2) a (3), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, lle y mae'n barnu bod hynny'n briodol, baratoi a gweithredu cynllun gwella integredig sy'n cwmpasu pob un o'r llygryddion perthnasol.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, caiff cynllun gwella gynnwys naill ai cynllun neu raglen y mae'n rhaid iddynt, ym mhob achos, anelu at gyrraedd y gwerth terfyn neu darged yn y parth perthnasol erbyn y dyddiad cyrhaeddiad ar gyfer y llygrydd dan sylw.

Mesurau gwella eraill

9.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bob parth lle y mae crynodiadau o—

(a) un neu fwy o lygryddion Grŵp B yn uwch na'r gwerth targed perthnasol; neu

(b) osôn yn gyfartal neu'n is na'r gwerthoedd targed, ond yn uwch na'r amcan hirdymor.

(2) Pan fo paragraff (1)(a) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol—

(a) adnabod achos y llygredd a phrif ffynonellau yr allyriannau; ac

(b) mewn perthynas â'r llygryddion dan sylw, sicrhau bod y mesurau sy'n ofynnol gan reoliad 7(2) yn cael eu cyfeirio yn benodol at ffynonellau'r allyriannau a ddynodwyd.

(3) Pan fo paragraff (1)(b) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol baratoi a gweithredu mesurau y mae'n ystyried eu bod yn rhai cost effeithiol gyda'r bwriad o gyrraedd yr amcan hirdymor.

(4) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod y mesurau sy'n ofynnol ym mharagraff (3) yn gyson ag unrhyw gynllun gwella a baratowyd ar gyfer osôn o dan reoliad 8(3).

(**8**) OJ Rhif L 257, 10.10.96, t.26.

(**9**) Gweithredir y Gyfarwyddeb gan Reoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000 (O.S. 2000/1973 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/503, 2002/275, 2002/1702, 2003/1699, 2003/3296, 2004/3276, 2005/1448 a 2006/2802 (Cy.241)).